





Mae'r llwybr hanes hwn yn on o gyfres saith a gynhyrchiwyd gan y disgyblion sy'n cyfrannu i'r brosiect "Croniclau Bro Cynffig'. Arianwyd y brosiect gan y Loteri Treftadaeth ym 2007 ac ers hynny mae plant ifanc yr ysgolion canlynol wedi bod yn ymchwilio i hanes yr ardal.

- Ysgol Gynradd Afon y Felin
- Ysgol Gynradd Cefn Cribwr
- Ysgol Gynradd Corneli
- Ysgol Gyfun Cynffig
- Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig
- Mynydd Iau Mynydd Cynffig
- Ysgol Gynradd Y Pîl
- Ysgol y Ferch o'r Sgêr

Heritage Treftadaeth
LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI
Bro Cynffig Chronicles
Community Opportunity Group

# Ysgol Y Ferch O'r Sgêr
## Llwybr Hanes



*'Plant Cynffig yn adrodd hanes yr ardal gyda chymorth y genedl hŷn'*

www.cynffigchronicles.co.uk

# Mae'r daith yn dechrau ar groesheol

## Hen Ysgol Corneli



Rydyn ni'n cerdded i lawr School Terrace. Dyma sut yr edrychodd amser maith yn ol. Dim ond ty y prifathro ar y chwith sydd yma

Hen ffoto a dynnywd o flaen tafarn y New House. Mae'r bwthyn to gwellt ar y chwith yn dal i fod yn rhan o'r dafarn heddiw. Yn ystod yr hen ddyddiau roedd cigydd yn arfer gweithio yn y dafarn a gwerthu cig o'r ffenest ar y cornel!

## New House



## Ysgol y Ferch o'r Sgêr



Cerddwch wrth ochr y dafarn. Ar y llawr o flaen y dafarn mae ' cerrig cobl' a ddaeth yn wreiddiol o draeth Sgêr. Ar un amser roedd pob pafyn fel hyn!

## Wall



Dyma ble roedd hen 'Cornelly Board School'(1876), Ysgol Gynradd Corneli ac yna Ysgol Y Ferch o'r Sgêr (1982-1996). Yn 1877 penodwyd Thomas Penhale fel prifathro yr ysgol newydd. Mr Penhale oedd y prifathro am 36 o flynyddoedd. Roedd e'n llym iawn ond rheolodd ysgol dda.

School Terrace

Ffordd yr Eglwys

Heol Ty Draw

Cerddwch heibio'r parc a throwch i'r dde tuag at Ty draw Road. Ar y chwith mae



bwthyn o'r enw Grithill Cottage a adeiladwyd ym 1714!

## Tafarn y Goron



Pan agorwyd y rheilffordd yn 1850, y 'Crown Inn' oedd cartref a prif swyddfa tocynnau meistr yr orsaf. Hefyd cynhaliwyd ymchwiliadau i mewn i ddamweiniau yn y pyllau glo a'r gweithfeydd haearn yma. Cerddwch ar hyd y lon tuag at y ganolfan arddio. Cyn cyrraedd y Brifforddd mae dau dy ar ychwith - Bythynnod y Goron (Crown Cottages) a enwyd ar ol y dafarn. Y bwthyn ar y dde oedd cartref Mary Ann Richard, y bardd lleol enwog a alwyd Mair Tir Iarll. Dyma ddiwedd y daith!

## Capel y Pîl



## Pont y Pîl 1850





Cerddwch dros bont y rheilffordd. Edrychwch am y dyddiad pan gafoddei hadeiladu. ...1883. Adeiladwyd Rheilffordd De Cymru ym 1850 a fe fuodd person pwysig iawn yn gweithio arno fe ...sef y peirianydd enwog Isambard Kingdom Brunel.